IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 24 AWST 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Lancaster a/ac Goddard |

12 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

13 : CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED EIDDO - CF11, CATHEDRAL ROAD

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Ymgeisydd: | Jason Arthur Hamer<br>Jon Wallsgrove cyfreithwyr Blake Morgan ar ran Mr Hamer |
| Unigolion Eraill: | Y Cynghorydd Iona Gordon, Riverside Ward, Ward Glan yr Afon<br>Y Cynghorydd Caro Wild, Ward Riverside<br>Mr M Bisic, preswylydd lleol<br>Mr D Brittain, preswylydd lleol |

Cais

Cais i gyflwyno Trwydded Safle gan Mr Jason Hamer ar gyfer CFEleven, 151 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9PJ.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am ddiwygio oriau trwyddedadwy fel a ganlyn:

Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle:

- Dydd Llun i ddydd Sul: 10:00 tan 00:00
- Nos Galan: tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar 1 Ionawr.

Diwygio'r cynllun cymeradwy er mwyn cynnwys dwy arall y tu allan yn nhrwydded y safle.

Diddymu amod 4: 'Ni chaniateir cwsmeriaid i adael y safle gyda diodydd alcoholig'.

Dywedwyd wrth yr Is Bwyllgor bod yr ymgeisydd yn dymuno diwygio rhan o'r cais a wnaed eisoes ar y sail nad oedd yr estyniad ar yr oriau trwyddedadwy ond o 10:00 tan 00:00 dydd Iau tan ddydd Sadwrn, heb unrhyw oriau an-safonol.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn derbyn yr amodau ychwanegol canlynol ar y drwydded eiddo gan Heddlu De Cymru, a arweiniodd at ddiddymu'r gwrthwynebiad:

1. Ni werthir diodydd alcoholig ond i bobl sy'n aros yn CF Eleven i'w hyfed.

2. Bydd yr ardaloedd y tu allan ar gyfer yfed diodydd alcoholig yn cau fel a ganlyn:
   Blaen: 21:00 bob dydd
   Cefn: 23:00 bob dydd
3. Ni fydd uchelseinydd allanol i chwarae cerddoriaeth gefndirol ar ôl yr amseroedd canlynol.
   Blaen: 21:00 bob dydd
   Cefn: 23:00 bob dydd
4. Bydd Goruchwylydd y Safle Dynodedig yn sicrhau y caiff yr holl boteli a gwydrau eu clirio oddi ar y byrddau'r tu allan yn rheolaidd yn ystod yr oriau masnachu i osgoi gwydr yn cronni'r tu allan.
5. Pan fo cerddoriaeth (y tu mewn yn unig), bydd y ffenestri a'r drysau yn aros ar gau ac eithrio pan fo angen i gwsmeriaid ddod i mewn neu adael y safle a'r ardal(oedd) y tu allan.
6. Ni fydd bar y tu allan yn yr eiddo.
7. Darperir Goruchwylwyr Drws yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA) ar brydau y penderfyna'r Goruchwylydd Safle Dynodedig fod angen hynny, wedi cynnal asesiad risg ysgrifenedig, sy'n dangos y rhesymeg dros benderfynu darparu SIA ai peidio.
8. Ar adegau pan yw SIA ar ddyletswydd, rhaid iddynt ddangos eu bathodyn(nau) SIA ar fandiau braich.
9. Rhaid cynnal cofrestr o'r staff drws a ddefnyddir ar y safle a rhaid iddi gynnwys y canlynol: y
   (i) Rhifau cofrestru Asiantaeth y Diwydiant Diogelwch pob goruchwylydd drws;
   (ii) Enw llawn pob aelod o staff drws;
   (iii) Amseroedd cychwyn a gorffen dyletswydd y staff drws;
   (iv) Enw'r cwmni y cyflogwyd y Goruchwylwyr Drws trwyddo.

Hefyd, cadarnhaodd yr ymgeisydd ei fod yn cytuno i ddiwygio amod 3 ymhellach:

Ni cheir defnyddio uchelseinydd y tu allan y tu blaen i'r eiddo ac ni cheir defnyddio uchelseinydd y tu allan y tu cefn i'r eiddo wedi 21:00.

<u>Sylwadau Unigolion Eraill</u>

Siaradodd y Cynghorydd Gordon ger bron yr Is-Bwyllgor.  Bu hi'n bresennol pan ddyfarnwyd y drwydded eiddo flaenorol ym mis Chwefror 2017. Dealltwriaeth y preswylwyr oedd mai gwesty dethol a fyddai yma, ond nawr mae'n dafarn go iawn gydag adloniant yng nghalon Heol y Gadeirlan, sy'n ardal gadwraeth.

Dywedodd Mr Lane wrth y Cyng. Gordon nad oedd unrhyw un o'r pwyntiau a wnaeth ynghylch yr ardal gadwraeth na chaniatâd cynllunio ar gyfer yr arwyddion yn berthnasol i'r materion a ddaw gerbron yr Is-bwyllgor Trwyddedu ac na châi Aelodau eu hystyried wrth benderfynu.

Dywedodd y Cyng. Wild ei fod wedi derbyn nifer o gwynion gan breswylwyr leol ynghylch lefel y sŵn o'r eiddo, a hefyd yn dweud bod yr ymgeisydd yn torri amodau a osodwyd ynghynt, pan ddyfarnwyd y drwydded.

Cyfeiriodd Mr Bisic, preswylydd lleol y mae ei cefn ei eiddo at ardd y safle, at yr e-bost a gyflwynwyd i'r awdurdod trwyddedu yn flaenorol, ond ychwanegodd y byddai CF Eleven ar agor am gyfnodau hirach na'r eiddo trwyddedig arall yn yr ardal, pe dyfernid y drwydded hon, ac y byddai hynny'n golygu y byddai'r preswylwyr yn dioddef rhagor gan y sŵn a ddaw ar hyn o bryd o ardd y safle.

Dywedodd Mr Britton, preswylydd lleol, wrth yr Is Bwyllgor ei fod yn cynrychioli nifer o breswylwyr lleol a oedd naill ai ar eu gwyliau neu'n methu â dod oherwydd ymrwymiadau gwaith. Gwnaed gwrthwynebiadau ar adeg y gwrandawiad diwethaf ym mis Chwefror 2017, ond pan ddyfarnwyd y cais, roedd disgwyliad y byddai'r amodau a osodwyd yn cael eu gorfodi. Nid ydynt wedi cael eu gorfodi, a chredir bod yr amodau wedi eu torri ar sail y ffaith bod cwsmeriaid yn defnyddio'r ardd wrth gefn yr eiddo. Mae CF Eleven yn eiddo dra gwahanol i'r un a ddisgrifiwyd wrth yr Is Bwyllgor ym mis Chwefror y llynedd.

Mae Heol y Gadeirlan yn drysor cenedlaethol a dylid ei drin felly.

Yn ateb gwestiwn gan yr ymgeisydd, dywedodd y Cynghorydd Wild ei fod wedi derbyn nifer o gwynion am yr eiddo drwy e-bost, ar Twitter ac mewn cymorthfeydd.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Anerchodd Mr Wallsgrove yr Is Bwyllgor ar ran yr ymgeisydd ac ategodd y ffaith bod yr ymgeisydd wedi derbyn yr amodau fel yr awgrymodd Heddlu Gogledd Cymru.

Derbyniwyd ar ran y cais mai'r rhesymau masnachol sydd dros y cais, yn amlwg nid techneg gyfrwys; nid yw'r diben gwreiddiol yn ddichonol yn ariannol mwyach. Mae'n sefydliad y mae pobl broffesiynol yn mynd iddo, gyda chyfartaledd oedran rhwng 25 a 55. Mae mwyafrif helaeth yr alcohol a werthir yno yn ddiodydd gin, ac mae prif y gin yn amrywio o £6 i £16. Mae alcohol arall ar werth yn yr eiddo.

Dywedodd Mr Wallsgrove nad oedd yr ymgeisydd yn credu ei fod nac y bu yn torri amodau'r drwydded trwy ddefnyddio'r ardd, a dywedodd na chymerwyd camau gweithredu na gwneud sylwadau am ddefnyddio'r ardd wedi ymweliad gan swyddogion Heddlu De Cymru.

Ni dderbyniwyd bod y gerddoriaeth yn yr ardd yn torri amodau; ystyrir bod yr ardd yn weithle yn unol â chanllaw Adran 182.

Ni chafodd Mr Hamer wybod am unrhyw gwynion am y safle tan gyflyno'r cais, a bu cwsmeriaid yn defnyddio'r ardd dros y 4 neu'r 5 mis diwethaf – aethpwyd i'r afael â chwyn presennol am lefel y sŵn yn ystod dathliad elusen.

Dywedwyd, ar y sail na chafwyd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru na'r adran Iechyd yr Amgylchedd a chanllaw Adran 182, y byddai'n rhaid cyflwyno tystiolaeth gredadwy a diriaethol er mwyn i'r Is Bwyllgor benderfynu'n groes i'r hyn a ystyrir yn farn arbenigwr.

Yn dilyn rhagor o gwestiynau, dywedodd Mr Wallsgrove fod cwsmeriaid yr eiddo yn lleol yn bennaf ac nid yn bartïon cyn priodi. Amcanir bod yr ystafell wely agosaf at gefn yr eiddo tua 40 metr oddi wrtho; mae llefydd eraill yn yr ardal hefyd a allai fod yn gyfrifol am unrhyw sŵn.

Dywedodd Mr Hamer fod yr ardd ar agor ers mis Mawrth neu fid Ebrill eleni a bod 8 ystafell wely yn y gwesty na chwynodd eu preswylwyr am y sŵn.

Gofynnodd y Cyng. Lancaster gwestiwn ynghylch y diffyg gwybodaeth am sut y byddai'r ymgeisydd yn cefnogi hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu; dywedodd Mr Wallsgrove na chafodd gyfarwyddyd i'w perwyl hwnnw pan gyflwynwyd y cais, fel arall, mae'n gwbl bosibl y byddai'r wybodaeth yn wahanol.

Dywedwyd wrth yr Is Bwyllgor bod lle i uchafswm o 24 yn sefyll y tu blaen i'r eiddo, 60 y tu cefn a 45 y tu mewn.

Crynhoi

Dywedodd y Cynghorydd Wild bod yr Is Bwyllgor wedi cael gwybod yn flaenorol na fyddai cwsmeriaid yn yfed yn yr ardd. Dywedodd Mr Bisic fod ei ystafell wely yn wynebu'r ardd ac oherwydd y tywydd, ni allai gau ei ffenestri ac felly cafodd ei aflonyddu'n fawr gan y sŵn. Ategodd Mr Britton bryderon na allai preswylwyr lleol gysgu oherwydd y sŵn o'r eiddo a dywedodd na chwynodd am yr eiddo o'r blaen oherwydd nad oedd yn gwybod y gallai wneud.

Ategodd Mr Wallsgrove ei ddatganiad na chafwyd gwrthwynebiadau gan Heddlu De Cymru na'r Adran Iechyd yr Amgylchedd a bod angen tystiolaeth gredadwy gref i benderfynu'n groes i'r awdurdodau cyfrifol hynny.

PENDERFYNWYD: CYMERADWYO'R cais diwygiedig a'r amodau diwygiedig yn rhannol, wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, sef estyn yr oriau gwerthu alcohol i'w yfed yn y safle o ddydd Iau tan ddydd Sadwrn o 10:00 tan 00:00 (hanner nos).

CYMERADWYO'R cais hefyd am ddiwygio'r cynllun cymeradwy i gynnwyd dwy ardal y tu allan yn nhrwydded yr eiddo a diddymu amod 4 y drwydded bresennol, ar yr amod na chaiff cwsmeriaid ddefnyddio'r ardal y tu blaen a'r tu cefn i'r safle a gynhwysir yn ei drwydded safle i yfed diodydd wedi 9.00pm.

14 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - WALLY SPIRITS OF WALES

Caniatawyd y cais heb fod angen gwrandawiad oherwydd y diddymodd y gwrthwynebydd ei wrthwynebiad.

15 : MATERION BRYS (OS OES RHAI)

Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 pm